Gorffennaf 2022 Rhifyn 308



# Gair y Gweinidog

**‘13Pan fyddi'n dod, tyrd â'r clogyn a adewais ar ôl gyda Carpus yn Troas, a'r llyfrau hefyd, yn arbennig y memrynau.’**

Dwi wrth fy modd gyda’r geiriau yna, geiriau sy’n ymddangos yn Ail Lythyr Timotheus, y bedwaredd bennod ac adnod 13, oherwydd eu bod yn eiriau sy’n adlewyrchu natur ddynol yr Apostol. Sawl un ohonom sydd wedi gadael ambarel ar ôl yn rhywle neu sgarff neu sbectol ac wedi gorfod mynd i‘r drafferth o geisio’u dychwelyd. Dyna ddigwyddodd yn ddiweddar a hynny yn dilyn oedfa yn un o gapeli’r henaduriaeth. Mae gen i ddwy sbectol, un i ddarllen a’r llall i yrru ac felly ar ddechrau pob oedfa fe fyddai’n ddeddfol yn tynnu’r un ddarllen allan o’r bag, glanhau y gwydrau a’i defnyddio. A hithau’n ddiwedd dydd, dyma droi am y stydi ac wrth agor y bag, darganfod bod y sbectol ar goll. Heb fawr ddim o banic, sylweddoli fy mod wedi eu gadael yn y capel ac felly dyma godi’r ffôn i wneud trefniadau i’w dychwelyd. Fe’m hysbyswyd na fyddai drws y capel wedi ei gloi a phetawn yn pasio yn ystod yr wythnos yna byddai croeso i mi alw mewn. Anaml mae rhywun yn gweld drws capel yn agored yn ystod yr wythnos ac mewn rhyw ffordd syml bu’r profiad yna’n sbardun i feddyliau pellach.

Mae yna gapel ym mherfedd Sir Faesyfed sydd wastad yn agored ond prin yw’r addoliad. Heblaw am oedfaon achlysurol, penderfynodd yr aelodau y byddai’n dda o beth agor yr adeilad i gerddwyr a chynnig man i orffwys, dydd a nos, ynghyd â deunydd i wneud paned. Mae yna flwch ar gyfer rhoddion a’r hyn sy’n rhyfeddol yw bod yr adeilad a’r blwch yn cael llonydd a’r gwerthfwrogiad o letygarwch yn amlwg. Mewn sgwrs diweddar gyda’r gweinidog, soniodd am

haelioni'r cerddwyr a chynnwys ambell nodyn oedd yn sôn am fendith darpariaeth o'r fath.

Ystyr y gair EGLWYS, EKKLESIA yn y Groeg, yw 'cymdeithas wedi ei galw allan', ac mae rhywun yn deall hynny yn nhermau pobl; pobl yn addoli, yn gwasanaethu ac yn tystiolaethu, ac felly eilradd yw adeilad. Mae gwerth a phwrpas eglwys yn cael ei ddiffinio yn yr union dermau hynny, ac aelodaeth eglwysig yn tanlinellu pwysigrwydd bod yn rhan o'r gymdeithas honno, yn ei amrwyiol ffyrdd.

Fe gydiais yn fy sbectol ond penderfynu ar yr un pryd y byddwn yn eistedd am ychydig funudau a chau fy llygaid. Tawelwch, awyrgylch, tipiadau cloc a sylweddoli o'r newydd mor werthfawr yw profiadau o'r fath yn enwedig mewn byd o brysurdeb ac o sŵn. 'Roedd hi'n ddechrau wythnos newydd a minnau ar y ffordd i angladd a holl gyfrifoldebau galwedigaeth yn pwyso'n drwm ar feddwl a chalon, ond diolch am y munudau tawel yna fu'n sbardun i weld ambell beth o'r newydd.

Ia, cymdeithas o bobl yw'r Eglwys a chrêd yn galon y gymdeithas honno, a loes i lawer un ohonom yw gweld bywyd y Gorllewin yn ymwrthod â'r ddealltwriaeth, ond ar yr un pryd bu'r Eglwys yn seintwar i unigolion ar hyd y canrifoedd a'i hadeiladau yn gysgod ac yn gysur. Diolch am lefydd fel Salem a Soar y Mynydd heb anghofio am adeiladau gwahanol fel Pantycelyn a Dolwar Fach a llu o lefydd tebyg, yn gwahodd rhywun i feddwl yn wahanol am ein hadeiladau. Mae perthynas unigolion â eglwys yn gwanio a'r profiad o fod mewn lle o addoliad yn rhywbeth dieithr i lawer un, ac felly onid ein braint yw defnyddio'r sefyllfa yna i fod yn bresenoldeb a chyfle i alluogi unigolion ymdawelu, petae ond am ychydig funudau ac ymdeimlo â Duw sydd mor agos atom mewn bywyd.

Geiriau'r Salmydd, Salm 46 –

'Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw,'

Ond yn arbennig, geiriau'r Iesu, Ioan Pen 14 –

‘Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun.’

Cofion a bendith.

Eifion.

# NEWYDDION

## Cofion

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at Hefina Davies-Wright, Iola Jones a Meirion Morgan sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, hefyd at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

## Croesawu aelod newydd

Ar fore Sul, Mehefin 5ed derbyniwyd Dolig Farrell yn aelod yng Nghapel y Morfa gan ein Gweinidog. Estynnwyd croeso cynnes iddi gan obeithio y bydd yn teimlo’n gartrefol yn ein plith. Diolch i Robin Huw Bowen am gludo aelodau Gerddi Rheidol i’r capel bob wythnos – Dolig, Mona, Ann a Margaret.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Iola Jones ar farwolaeth ei phriod, Mr. Geraint Lewis Jones a wasanaethodd fel blaenor am 50 mlynedd yn Seilo ac yna yng Nghapel y Morfa. Anfonwn ein cofion atoch Iola yng Nghartref Tregerddan.
Cydymdeimlwn â Valerie Jones ar farwolaeth ei Mam, sef Mrs. Mary Jones, Crud-yr Awel. Cydymdeimlwn hefyd â Awel Jones,

merch-yng -nghyfraith Mary, Ffion a Sioned, y ddwy wyres ac Osian a Rhys, y gor-wyrion.
Cydymdeimlwn â Anne Edwards ar farwolaeth ei brawd, sef Mr. John Glyn Davies, Derry Ormond.
Cydymdeimlwn â Glenda Jones ar farwolaeth ei thad, sef Mr David Owen, Pontrhydfendigaid - tad-cu i Iestyn
Cydymdeimlwn hefyd â Dafydd Morgan Evans sydd wedi ei colli ei fam-yng-nghyfraith – sef Mrs. Alice Jones, Llanfair Caereinion.

## Symud

Dymunwn yn dda i Eirian a Menna Evans yn eu cartref newydd yng Nghaerdydd a diolchwn  am eu gwasanaeth a'u cyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r plant a'r ieuenctid fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Dinbych ac a gafodd lwyddiant fel rhan o barti neu gôr ysgol neu Adran.
Llongyfarchiadau i Ioan Mabbutt ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd 15-19 oed ac am dderbyn y tlws am yr unawdydd mwyaf addawol.

## Penblwydd arbennig

Dymunwn yn dda i Phyllis Kinney ar ddathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar Orffennaf y 4ydd

# Newyddion Ebeneser



## Cofion

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at ein aelodau a’n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

## ATGOFION

Wedi cyfnod o ddieithrwch oherwydd y Covid, braf yw dod nôl i rhyw fath o drefn a gyda hynny, caniatâd i ymweld â chartrefi preswyl ac yn eu plith Tregerddan. Hyfryd oedd cael cwmni Celia a Lizzie Jones a’r ddwy yn gyrru eu cyfarchion i chi gyd. Yn ychwanegol ‘rydym wedi derbyn y gasgliad gyfoethog yma o atgofion gan Celia a braf cael eu cynnwys yn Perthyn. Mwynhewch y darllen.

Rwy’n teimlo fod gennym i gyd ddyletswydd i roi lawr ar gof a chadw cofnod o’n ychydig flynyddoedd ar y ddaear ar gyfer y genhedlaeth nesa.
Yn ddiweddar rwy’ wedi bod yn meddwl llawer am ardal fy mhlentyndod yn Llangynwyd (“Tir Iarll” y canol oesoedd) a’r ffordd y trawsnewidiodd y tirwedd a’r ffordd o fyw yn y Cwm. Yn ungeiniau’r 19eg ganrif, roedd gweithfeydd haearn yn y Cwm ond roedd yn ardal wledig. Wedi 1840 mewnfudodd miloedd i weithio yn y pyllau glo.
Gydag agor llawer o byllau i gloddio glo o’r safon uchaf yn ystod ail hanner y 19eg ganrif, newidiodd y pentrefi bach gwledig yn sylweddol gyda chodi llawer iawn o strydoedd tai teras, siopau, tafarndai, ysbytai ac ysgolion. Daeth y miloedd hyn gan fwyaf o Orllewin Cymru, o Gernyw ac o Iwerddon. Dechreuodd y mewnfudiad bwyso ar y gymdeithas a’r diwylliant Cymreig.  Roedd yr iaith Saesneg yn dechrau disodli’r Gymraeg a’r Cymry Cymraeg eu hiaith yn troi’n lleiafrifol.
Bu addysg elfennol (cynradd) yn orfodol yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ers cyflwyno'r Ddeddf Addysg yn 1870.  Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn fynychu'r ysgol hyd at 10 mlwydd oed.  Ond doedd gan y mwyafrif o rieni dosbarth gweithiol mo’r arian i dalu am addysg bellach i’w plant i gyd. Ar ddiwrnod ei benblwydd yn 12 oed yn 1894, dechreuodd fy nhad weithio fel prentis i’r gof uwch y Pwll Glo - bu’r ddau yn ffrindiau am oes.
Roedd fy nhad a nifer o fechgyn eraill y pentre yn ffodus iawn fod prifathro Ysgol y Cymmer, Mr Lewis Davies a’r meddygon lleol wedi eu cymryd dan eu hadain i roi iddynt addysg ychwanegol gyda’r nos. Byddai hyn yn rhoi gwell sylfaen ac ehangu gorwelion y bechgyn tu hwnt i fywyd caled y pwll glo. O ganlyniad, roedd fy nhad drwy’i oes yn hoffi darllen ac yn ymddiddori mewn hanes a daeryddiaeth.

Yn 1889 pasiwyd y Welsh Intermediate Education Act – trobwynt mawr. Diben y ddeddf hon oedd i sefydlu ysgolion uwchradd newydd wedi eu hariannu gan y llywodraeth.
Roedd fy modryb, chwaer hena fy mam, yn dal i gofio'r "Welsh Not" ar droad y ganrif. Trwy gydol eu hoes, siaradai fy modryb a'i chwiorydd yn Saesneg gyda'i gilydd. Erbyn fy mhlentyndod innau, roeddem i fod i gael gwersi Cymraeg yn yr ysgol fach. Ond mewn gwirionedd dim ond ar brynhawn Gwener y cawsom unrhryw fath o wers Gymraeg. Daw "Cân yr Ysgol" gan Dafydd Iwan i'r côf –
Ac ambell i lesyn yn Welsh, chwarae teg,
Am mai Cymro bach oeddwn i.
Roedd y Cwm yn enwog am ei ddiwylliant – cyngherddau mawr gyda sêr enwog, cymdeithasau gwleidyddol, corau ac Eisteddfodau.
Yn sgîl Diwygiad 1904 roedd y Cwm yn frith o gapeli gwahanol enwadau – capeli Cymraeg a Saesneg. Yn ei anterth yn y capeli mawr byddai dosbarthiadau oedolion yn trafod yn frwd - y Beibl, y bregeth ac amrywiol bynciau moesol a gwleidyddol. Byddai'r dynion hyd yn oed yn trafod hyn amser cinio yn y Pwll Glo.
Capel Moriah, Pontrhydycyff oedd ein capel ni. Tŷ Cwrdd bach diaddurn, â stôf yn y canol. Dyma lle priododd Alun a fi ar ddechrau 1965.
Syml iawn oedd patrwm gweithgareddau yr Ysgol Sul – darllen y Beibl, darllen "Rhodd Mam", ymarfer ar gyfer y Gymanfa Ganu flynyddol a dysgu "Cantata" (yn Saesneg) ar gyfer cyngerdd y pentref adeg Nadolig. Dim lliw, dim crefftau. Doedd dim siopau na thafarndai ar agor ar y Sul. Mor wahanol yw hi heddiw gyda'r bwrlwm o weithgareddau lliwgar.
Ar y Sulgwyn byddai plant Capel Bedyddwyr Ainon (oedd ddim ond tafliad carreg o Moriah) yn ymuno â ni i gerdded o gylch y pentref, cyn cael tê unol gyda theisen ceirios, seed cake a pop.

Yn y Rhyfel Mawr, roedd miloedd ar filoedd wedi cael eu lladd neu wedi'u hanafu ac wedi cael eu dadrithio a'u siomi – dim gwaith, dim gobaith.
Yn y cyfnod hwn rhwng y ddau ryfel byd, roedd tlodi yn rhemp, y diciâu (TB) yn gymharol gyffredin a'r rhan fwyaf o'r plant yn cael esgidiau am ddim yn yr ysgol, cod liver oil a photel fach o laeth (1/3 peint).
Bu'r glöwyr oedd allan o waith yn protestio drwy gerdded yr holl ffordd i Lundain.
Rwy'n cofio dod mâs o'r ysgol fis Medi 1939 a chlywed sirens am y tro cyntaf. Rhedeg lawr y stepiau i'r farchnad danddaearol ym Maesteg ac aros yno hyd y rhoddwyd yr All Clear. Bomio mawr yn Abertawe, tair noson o'r bron. Rhyfel yn yr awyr oedd y rhyfel hwn, yn hytrach nag yn y ffosydd. Byw o dan gysgod y chwiloleuadau a'r blacowt, tywyll iawn yn y nos. Wrth gwrs roedd prinder cynyddol o fwyd a dillad, rhaid oedd cael coupons neu ration books am bron popeth. Roedd y sloganau fel Make Do and Mend yn dweud wrthym am greu a thrwsio ein dillad ein hunain a Dig for Victory yn ein hannog i dyfu bwyd yn yr ardd i fod yn hunangynhaliol.
Yn wahanol i'r cyfnod ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, wedi'r Ail Ryfel Byd crëwyd nifer fawr o swyddi gan fod angen brys i ailgodi trefydd oedd wedi'u bomio. Ac roedd technoleg wedi symud ymlaen yn fawr. Aeth ffatrioedd diri i fyny, a chymaint o dai newydd – prefabs. Popeth yn newid unwaith eto yn y Cwm gyda mewnfudwyr yn cyrraedd eto, y tro hwn o nifer o wledydd y Gymanwlad, yn enwedig o Jamaica ac o'r India.
Ar ddechrau'r ganrif ddwetha roedd y Cwm yn frith o gapeli gwahanol enwadau. Erbyn heddiw does prin unrhyw gapel ar ôl yn y Cwm.
Er i'r ysgol feithrin Gymraeg gyntaf erioed gael ei hagor mewn festri capel ym Maesteg yn 1949, prin iawn oedd ysgolion meithrin ar draws Cymru cyn y 70au. Ac eto mae'n amlwg fod cryn frwdfrydedd ymhlith rhieni a fu'n fodlon talu am yr addysg meithrin Gymraeg ym Maesteg – yn galw mor gynnar

a’r 50au am gael addysg Gymraeg cynradd ac uwchradd i’w plant.
Yn ôl sensws 1971 dim ond 17% o drigolion y Cwm oedd yn siarad Cymraeg. Gyda’r iaith wedi colli tir mor sylweddol, diolchwn am weledigaeth a brwdfrydedd ambell i ysgohaig cenedlaetholgar fel Jac L. Williams, Dan Lyn James a Norah Isaac (a aned ac a fagwyd ym mhentre’r Caerau) ac eraill. Erbyn 1981 roedd 350 o gylchoedd meithrin yn bodoli ar draws y wlad. Roeddynt wedi deall mai trwy addysgu’n plant yn y Gymraeg o oedran meithrin y byddem yn cryfhau a sicrhau dyfodol yr iaith.
Pan ddaeth y teledu i’n cartrefi, roedd y cyfan yn Saesneg a cafodd hyn ddylanwad negyddol ar yr iaith. Mae’n dyled yn fawr i Gwynfor Evans am ei frwydr i gael sefydlu S4C yn 1982. Ar ôl bron colli’r dydd, gwerthfawrogwn y rhan hanfodol a chwaraeodd Syr Ifan ab Owen Edwards yn sefydlu Urdd Gobaith Cymru 100 mlynedd union yn ôl yn 1922 a hefyd yr Ysgol Gymraeg gynradd gyntaf yn y Lluest yn 1939. Cyfrannodd yn sylweddol at achub ein treftadaeth a’n diwylliant a’n hiaith a rhoddodd y cyfle i blant Cymru gael eu addysg, eu hwyl a’u adloniant drwy gyfrwng y Gymraeg. Cofiwn hefyd am fyfyrwyr, heddychwyr a gwladgarwyr eraill a gymerodd safiad dros eu hegwyddorion; ac yn hwyrach daeth Merched y Wawr, penwythnosau preswyl yn Llangrannog a Glanllyn, canolfan Nant Gwrtheyrn, papurau bro a lliaws o gymdeithasau brwdfrydig eraill.
Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant eleni cawsom glywed fod miliynau o bunnoedd wedi eu clustnodi ar gyfer hybu addysg Gymraeg – cymaint mae’r rhod wedi troi dros y 200 mlynedd diwetha.
Dros gyfnod fy oes, bu trawsnewidiadau anhygoel yn ein byd. Mae gen i gof o ysgrifennu ar lechen yn yr ysgol fach yn Llan. Heddiw heb ysgrifennu, gallwn siarad â chyfrifiadur a byddai fy ngeiriau yn mynd yn awtomatig ar amrantiad i unrhyw le.
Pum mlynedd cyn fy ngeni, clywyd y darllediad radio cyntaf gan y BBC. Heddiw gallaf gael sgwrs fideo gyda theulu ben

arall y byd. Beth fydd ein plant yn ei gofnodi ar gyfer eu plant hwythau? Eu mamiaith yn dal i ffynnu a'n byd yn fwy heddychlon a llai bregys? Edrychwn i'r dyfodol yn hyderus.

Celia Jones

# YR YSGOL SUL

Cynhaliwyd Gwasanaeth teulu ar ddydd Sul y Pentecost. Yn dilyn neges hwyliog y balwnau gan Eifion, aeth y plant i'r Ysgol Sul i fwynhau crefftau'r Pentecost. Ar ôl y gwasanaeth rhoddwyd y colomennod ar y goeden heddwch yn yr ardd ger y capel i agor cyfnod o Fyfyrdodau a Gweddiau Heddwch o dan arweiniad Cytun Waunfawr.

Roedd gweithgareddau'r parasiwt yn addas iawn ar fore Sul, Mehefin 19eg, yn dilyn cyfnod y Pentecost . Cyflwynwyd stori Pedr ac Ioan yn iachau'r dyn cloff wrth borth y deml a chafwyd cyfle i actio'r stori a lliwio'r dyn cloff oedd yn gallu neidio ar goesau consertina! Erbyn hyn, ffrwythau'r ysbryd ar siap calonnau sydd yn hongian ar y brigau yn y festri, yn lle delweddau'r Pasg. Gofynnwyd i'r plant dros 7 oed ddewis cerdyn gyda llun ac enw ffrwyth yr ysbryd, eu casglu a'u cofnodi.




Roedd bywyd Newydd gan y dyn cloff a’r cam nesaf oedd rhoi bywyd newydd i hadau blodau’r haf trwy eu plannu mewn pridd. Roedd y weithred hon yn cysylltu ag Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol – Hadau Gobaith. Mae’r ieuenctid hefyd yn rhoi sylw i’r Apêl trwy gasglu arian mân i‘w rhoi ar amlinelliad o flodyn yr haul.





## Geraint Lewis Jones

Ym marwolaeth Geraint Lewis Jones, unwaith eto collodd Capel y Morfa flaenor ffyddlon a gweithgar. Yn unig blentyn i David a Sarah Jones, fferm Troed y Rhiw, Glas Pwll, Machynlleth, ac yntau ond yn ddeufis oed, symudodd y teulu i ardal Tal-y-bont. Bu blynyddoedd ei bentyndod yn rhai

dylanwadol gyda'r aelwyd, y gymdeithas a'r capel yn golygu popeth iddo. Wedi mynychu ysgol y pentref, dewiswyd Ysgol Tywyn i barhau ei addysg a gan fod y daith yn hir 'roedd yn rhaid aros yno yn ystod yr wythnos a gyda hynny, cael cyfle i adnabod plant o gefndiroedd gwahanol. Bu cymdeithasu a chyfeillgarwch yn bethau pwysig i Geraint trwy gydol ei fywyd ac yntau wrth ei fodd yn cael bod ynhlith pobl.

Wedi gorffen ei addysg, dychwelodd gartref ac ymhen amser gwynebu'r ergyd fawr o golli ei dad. O ganlyniad, etifeddodd y cyfrifoldeb o fod yn ben teulu ac er yn ifanc, cyflawnodd hynny'n gydwybodol gan fod yn gefn mawr i'w fam. 'Roedd y gwaith yn llafurus, ond ceid ambell awr i ddilyn ei ddiddordebau a dim yn fwy na eisteddfod a chyngerdd. 'Roedd yn ddyn cyngerdd a'i hoffter o gerddoriaeth yn arwain i aelodaeth yng Nghorau Meibion Machynlleth a Aberystwyth, Côr Cymysg Glannau Ystwyth a'r Madrigals ynghyd â'i gyfraniad i ganiadaeth y cysegr fel organydd yn Nasareth, Tal-y-bont ac yna Seilo, Aberystwyth. Byddai'n dirprwyo i'r enwog Charles Clemens ac yn gwneud hynny gyda phob gwyleidd-dra a'r cyfan yn adlewyrchiad o'i natur a'i bersonoliaeth. Ym myd yr eisteddfodau byddai'n cefnogi ac yn cystadlu ond coron y caledr blynyddol oedd y Genedlaethol. Eisteddodd arholiadau'r wisg werdd a'r glas gan dderbyn anrhydedd y wisg wen am ei gyfraniad fel stiward am gymaint o flynyddoedd. Cyfarfu Iola mewn eisteddfod, cyfarfyddiad arweiniodd at briodas hir a bendithiol, chwedeg tri o flynyddoedd, a gofal Iola o Geraint yn esiampl i unrhyw un. Bu'r ddau yn byw gyda'i fam i ddechrau ond yn dilyn ei marwolaeth symudwyd i George St, Aberystwyth ac ymhen amser i Rhos Hendre. Bu'n gweithio i'r Comisiwn Coedwigaeth ac yna'r Weinyddiaeth Amaeth gan orffen ei fywyd gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Eisteddfodau, cyngherddau, gwyliau, cymdeithasu, y cyfan wrth fodd Geraint ond mi 'roedd yna rhywbeth arall hefyd, pwysicach, sef ei ffydd. Ymhyfrydai yn y

ffaith mai'r Parchedig Athro Harri Williams dderbyniodd ef yn gyflawn aelod a bu capel ac oedfa yn agos at ei galon trwy gydol ei fywyd. Bu'n flaenor am hanner cant o flynyddoedd gan dderbyn yn ystod misoedd olaf ei fywyd, dystysgrif gan Gymdeithasfa'r De i nodi hynny, a bu ei ffyddlondeb i'r Cyfarfodydd Blaenoriaid a'r oedfaon yn esiampl ac yn ymdrech ar adegau.

Ni fu'r cyfnod olaf yma'n hawdd rhan iechyd ond 'roedd cael bod yng nghwmni Iola yn Nghartref Tregerddan a phrofi gofal y staff ymroddedig yno, yn fendith ac yn gysur.

Cydymdeimlawn yn ddwys â Iola a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Morfa ac yn dilyn ym mynwent gyhoeddus Machynlleth ar y 8fed o Fehefin gyda'r Parchedigion Eifion Roberts a John Tudno Williams a Miss Gwerfyl Pierce Jones yn gwasanaethu.

## ADNABOD NAN WYN<br>YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL NEWYDD<br>EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU



**1.Allwch chi roi amlinelliad o'ch gwaith fel Ysgrifennydd Cyffredinol ar gyfer darllenwyr Perthyn, os gwelwch yn dda?**

Yr Ysgrifennydd Cyffredinol a Cyfarwyddwr Gweinidogaethau yw Prif Swyddog y Gymanfa Gyffredinol. Byddaf yn gyfrifol am arwain, cynghori, datblygu a dyfnhau bywyd a thystiolaeth ein henwad yma yng Nghymru (a Lloegr) ac yn y cyd-destyn byd eang hefyd.

**2. Beth yw'r heriau mwyaf ar hyn o bryd?**

Mae llawer wedi newid arnom fel Eglwys yn ystod y ddwy flynedd a hanner dwytha a hawdd iawn fyddai i ni dorri ein calonnau'n llwyr wrth feddwl am y dirywiad. Credaf fod pob cynulleidfa, beth bynnag fo ei rhif a'i stâd ysbrydol yn haeddu pob urddas ac anrhydedd, yn union fel y dywed Paul wrth yr Eglwys yng Nghorinth. Ond wrth baratoi a meddwl yn strategol i'r dyfodol mae'n rhaid i ni fentro a chynnig mwy na dim ond gofal lliniarol i'n haelodau a'n cymunedau. Mae hi'n unfed awr ar ddeg arnom, ac mae'n rhaid i ni weithredu ar unwaith. Y mae pob egin newydd angen gofal ac amynedd os oes ffrwyth i ddilyn. Ni fyddaf yn disgwyl i bawb gytuno gyda phob penderfyniad a gymerir, ond bydd eich cefnogaeth yn y 'mentro' anorfod y bydd rhaid i ni ei wneud yn hanfodol. Chwaraewr tîm ydw i, ac mae gwybod fod yna gefnogaeth yn anogaeth fawr. Yn wylaidd gofynnaf i chi weddio dros yr Eglwys a throsom fel arweinyddion.

**4. Beth sy'n eich calonogi fwyaf?**

Bod yng nghwmni pobl Dduw. Gallaf ddweud fy mod yn caru'r Eglwys. Tydw i ddim yn caru sut yr ydym yn ymateb bob amser, ond dw i yn ei charu ac yn deheu am ei gweld yn gogoneddu enw Iesu Grist yn fwy effeithiol i genhedlaeth Newydd. Mae'r delwedd o'r Eglwys fel 'priodferch wedi ei

thechau ar gyfer ei gŵr' yn Llyfr y Datguddiad, mor hardd. Fy ngweddi a'm gweledigaeth, beth bynnag fyn Duw heddiw, ac i'n dyfodol, ydy ein bod ni'n parhau a llygaid ar y priodfab, Iesu Grist ei hun.

**5. Oes modd i ni ddefnyddio'r dechnoleg fodern mewn ffyrdd mwy effeithiol?**

Credaf fod EBC wedi gorfod symud o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r unfed ganrif ar hugain o ran ei defnydd o dechnoleg mewn mater o tua mis! Mae'r rhan fwyaf ohonom erbyn hyn yn gyfarwydd a chyfarfod yn rhithiol a chyfathredu drwy'r rhwydweithiau cymdeithasol. Mae cyfarfod a phobl yn rhithiol, o bedwar ban byd yn brofiad dyddiol i mi yn fy ngwaith erbyn hyn. Mae cloc Taiwan, Singapore, De Affrica, Jamaica, India a hyd yn oed Myanmar yn rheoli llawer ar fy amserlen. Un o'r dywediadau oedd yn cael ei ddefnyddio yn aml yn 2020 oedd 'O na, cyfarfod am 12 o'r gloch Singapore time!' 5 o'r gloch yn y bore i ni!
Ond yn bwysicach na defnyddio technoleg fodern yn effeithiol, mae'n rhaid i'r Eglwys ofyn yn barhaol iddi hi ei hun a ydy hi'n cyfathrebu yn y modd mwya effeithiol. Mae diffyg cyfathrebu'n glir ac yn bendant yn gallu peri dipyn o boen a dryswch, ac yn achosi i ni golli cyfleoedd.

**6. A oes angen i'r Enwad fod ag un weledigaeth gyffredinol neu a oes angen bod yn fwy penodol yn ein gwahanol eglwysi/capeli neu a oes angen cyfuniad o'r ddau?**

Credaf mai un o rinweddau yr Eglwys ydy'n amrywiaeth, er fod rhai yn gweld hyn yn faen tramgwydd. Mae'n rhaid i ni gyd ddysgu gwrando ar ein gilydd a bod yn barod i ddysgu. Mae cael gweledigaeth neu strategaeth ganolog yn sicr o ddangos arweiniad. Ond mae'n hanfodol i ni annog a perchnogi yr hyn sy'n digwydd yn lleol bob amser hefyd.

# TAITH GERDDED Y GYMDEITHAS

Cynhaliwyd taith gerdded y Gymdeithas eleni ar nos Iau, 16 Mehefin o dan arweinad Rhys a Trish Huws. Roedd yn braf gweld cynnifer wedi dod ynghyd ar noson berffaith i gerdded. Cafwyd taith gerdded i fannau yn y dref nad oedd rhai o'i thrigolion yn gwybod amdanynt!  Tipyn o gamp! Cafwyd gwledd ar ddiwedd y noson ym Medina a chyfle i sgwrsio ymhellach dros bryd blasus.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ym mis Medi.

# YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
# Gorffennaf y 30ain i Awst y 6ed




Mae yna dipyn o edrych ymlaen at yr Eisteddfod a'r arlwy yn eang a diddorol. Ceisiwch Raglen yr Wythnos ond rhan hwylustod dyma restr o rhai digwyddiadau all fod o ddiddordeb

**Dydd Sul – Gorffennaf 31 -**

Oedfa'r Bore yn y Pafiliwn am 9 o'r gloch.
Bydd angen i bawb fod yn eu seddau erbyn 8.30 a bydd tâl mynediad i'r maes yn daladwy.
Bydd thema'r oedfa yn dilyn thema'r Eisteddfod, sef 'Dadeni' ac yn olrhain hanes Dewi Sant, mynachod Ystrad-fflur, Daniel Rowland a'r heddychwr o Dregaron, Henry Richard, gan gofio am yr angen am heddwch yn ein byd ar hyn o bryd.

Cymanfa Ganu'r Eisteddfod yn y Pafiliwn am 7 o'r gloch
Arweinydd:   Delyth Hopkins Evans

**Dydd Mercher – Awst y 3ydd am 10.30 o'r gloch**

Pabell y Cymdeithasau –
'Ieuan Gwyllt a Thanymarian: tadau canu cysegredig
Anghydffurfiol Cymru?' – Trystan Lewis
(Cymdeithas Emynau Cymru)

**Dydd Iau - Awst y 4ydd am 10 30 a.m**

Capel Gwynfil, Llangeitho –
DARLITH CAPEL / ADDOLDAI CYMRU
'Dau o Bregethwyr mwyaf Ewrop: DANIEL ROWLAND
a DR. MARTIN LLOYD-JONES' – Yr Athro Wyn James

**Pabell Cytun**

Eglwysi Aberystwyth fydd yn gyfrifol am y te yn y babell ar y dydd Mercher – Awst 3ydd
Sesiwn 2 : 11 – 1 o'r gloch – Capel y Morfa.
Apêl – Os ydych yn barod i fod wrth y bwrdd te am awr rhwng 12 a 1 o'r gloch a wnewch chi roi gwybod i Eleri Davies os gwelwch yn dda (612418). Bydd angen pedwar person.
(Mae pedwar person eisoes wedi gwirfoddoli ar gyfer yr awr gyntaf tan 12 o'r gloch)

Bydd gwasanaeth byr ym Mhabell Cytun bob bore am 11. Rhoddir sylw i Gapel y Morfa a'r Morlan ac Ysgol Sul Capel y Morfa yn yr arddangosfeydd.

## Gwahoddiad : Blodau yn y capel

Os oes rhywrai yn dymuno rhoi blodau yn y capel ar ddydd Sul arbennig o fis Medi ymlaen tan ddiwedd y flwyddyn os gwelwch yn dda allech chi gysylltu â Eleri Davies (612418)

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf doedd hi ddim yn bosib dilyn y rhestr blodau arferol. Mae llestr o flodau syml yn ychwanegu at yr addoliad ac mae gennym flodau sidan wrth gefn.

cymorth cristnogol

**Cinio Bara a Chaws dan nawdd Capel y Morfa**

Bydd Cinio Bara a Chaws, wyneb yn wyneb, yn cael ei gynnal yn y Morlan ar ddydd Llun, 11eg o Orffennaf, a hynny rhwng 12.00 ac 1.30 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb!

## Mona Chambers

Roedd Mrs Mona Chambers a fu farw yn Aberystwyth yn 96 oed yn cyfrif Bangor fel ei chartref ers blynyddoedd lawer. Er iddi symud i Aberystwyth ychydig flynyddoedd yn ôl nid oedd Bangor 'a'i ffrindiau' byth ymhell o'i meddyliau. Roedd yn gwerthfawrogi gweld unrhyw un o'r ardal oedd yn galw heibio.

Yn Llanrug y cafodd ei geni pan oedd ei thad yn weinidog yno ond Llannefydd yn Sir Ddinbych oedd y lle a ddylanwadodd fwyaf arni.  Oddi yma yr aeth i'r ysgol yn Abergele a Dinbych. Daeth i Fangor i astudio Cymraeg yn y Brifysgol ac yma y gwelodd ei gŵr, Gwyn, er mai Charlie yr oedd yn ei alw yn y dyddiau cynnar.  Cafodd swydd yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Botwnnog ac roedd un o'i chyn-ddisgyblion cyntaf yn ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, 27 Ebrill – Mrs Valerie Tecwyn Ellis, Bryn Adda.  Roedd y ddwy wedi cadw cysylltiad byth ers hynny. Cofiai dorreth o ddisgyblion a fu dan ei gofal am yr wyth mlynedd y bu yno.
Wedi priodi yn 1955 cartrefodd hi a Gwyn yn Ffordd Penrhos a symud i ail dŷ yno, Awelon, ychydig flynyddoedd wedi i'r mab Huw ddod i'r byd.
Bu'n weithgar iawn mewn sawl cylch. 'Roedd yn athrawes Ysgol Sul ac organyddes yng Nghapel y Graig a bu'n un o organyddion Berea Newydd wedi hynny. Cyfeiriodd sawl cenhedlaeth ati fel 'Anti Mona'. Bu'n llywodraethwr Ysgol Friars ac yn un o'r ymgyrchwyr dygn i sefydlu Ysgol Tryfan yn y saithdegau. Ymfalchiai yn y fuddugoliaeth wedi siom y gwrthod tro cyntaf.
Roedd yn un o'r rhai a sefydlodd gangen Merched y Wawr, Penrhosgarnedd yn 1967 ac roedd ganddi hanesion difyr am y dyddiau cynnar rheiny. Bod yn aelod o Gantorion Menai oedd un arall o'i diddordebau. Bu'n ohebydd a chefnogwr mawr i'r Goriad ers iddo gael ei sefydlu yn 1980 ac roedd yn dal i'w dderbyn a'i gefnogi ar ôl symud i Aberystwyth i fod yn nes at Huw a'r teulu.
Nid oedd y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn hawdd iddi a symudodd i gartref yn Bow Street y llynedd. Yno y trawyd hi'n wael cyn iddi fynd i Ysbyty Bronglais.
Ar ddiwrnod ei hangladd cofiwyd am ei ffydd, ei Chymreictod cadarn a'i chyfraniad nodedig i'w chymdeithas.
Cydymdeimlwn â'i mab Huw a'i wraig Catherine a'r plant,

Mari, Iwan a Sion.  Methodd Mari a bod yno am ei bod yn gweithio yn y Swistir.
Bu’r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar y 27ain o Ebrill gyda’r Parchedigon Eric Jones, Eifion Roberts, Alun Tudur, Trefor Lewis yn gwasanaethu.

Diolch i’r Parch Eric Jones, Bangor am drosglwyddo’r geiriau yma.

**Bydd coffad i Mrs Mary Jones yn ymddangos yn rhifyn Awst / Medi**



O Grist y Goleuni,
goleua ein tywyllwch â disgleirdeb dy sancteiddrwydd
a helpa ni i gerdded yn dy oleuni
holl ddyddiau ein bywyd.

O Grist y Ffordd,
arwain ni ar hyd ffordd cyfiawnder a chariad
a helpa ni i godi’r groes,
i ymwadu â’r hunan a’th ganlyn di.

O Grist y Gwirionedd,
dysg ni i adnabod Duw yn dad a’n cyd-ddyn fel brawd
a nertha ni i ddwyn pobl i gymod â’i gilydd

ac i ddymchwel pob anwiredd a gorthrwm.

O Grist y Brenin,
terynasa yn ein calonnau,
deled dy deyrnas a gwneler dy ewyllys
ynom ni ac ar y ddaear, fel y mae yn y nef.

Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o Cymer fy munudau, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis

## SULIAU GORFFENNAF

Gorffennaf 3 – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Gorffennaf 10 – Rhidian Griffiths – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Gorffennaf 17 – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Gorffennaf 24 – Tudur Dylan Jones – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Gorffennaf 31 – Oedfa'r Eisteddfod

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch heblaw am yr Eisteddfod
Yr oedfa am 9 gyda phawb yn eu seddi am 8.30

Golygyddion – Eifion ac Alwen Roberts
eifionroberts095@btinternet.com